Bridgend County Borough Council

# Ymgynghoriad ar Ddigartrefedd 2019

Mae'r **ymgynghoriad yn dechrau** ar: **12 Ebrill 2019**

ac yn **dod i ben am 5pm** ar: **24 Mai 2019**

Am ragor o wybodaeth ewch i **www.bcbc.gov.uk/ymgynhoriadau** - bydd modd i chi gael manylion am y cynigion a llenwi holiadur.
Os oes angen copi caled o'r holiadur arnoch chi, cysylltwch a ni:

✉ consultation@bridgend.gov.uk

☎ 01656 643664

Y Swyddfeydd Dinesig, Stryd Angel, Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 4WB.

# Ymgynghoriad ar Ddigartrefedd 2019

Bydd yr arolwg hwn yn cymryd tua 10 munud i’w lenwi.

Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) – Hysbysiad Preifatrwydd

Bydd yr wybodaeth a nodir gennych ar y ffurflen hon yn cael ei defnyddio i gyfarwyddo Strategaeth Digartrefedd 2018-2022.

Bydd y cyngor yn cymryd yr holl ragofalon rhesymol i sicrhau cyfrinachedd a chydymffurfio â’r ddeddfwriaeth diogelu data. Mae’n bosib bydd eich gwybodaeth yn cael ei rhannu â’r Tîm Datrysiadau Tai er mwyn cyfrannu at Strategaeth Digartrefedd 2018-2022. Bydd eich gwybodaeth yn cael ei chadw’n unol â Pholisi Cadw Data’r cyngor.

Mae gennych nifer o hawliau dan y ddeddfwriaeth diogelu data. Gallwch hefyd dynnu eich caniatâd yn ôl a gofyn inni ddileu eich gwybodaeth bersonol unrhyw adeg trwy gysylltu â ni. Ceir mwy o wybodaeth am hyn ar ein gwefan, neu gallwch gysylltu â’r Swyddog Diogelu Data.

Os byddwch yn anfodlon ynglŷn â’r modd y proseswn eich data personol, yna mae gennych y dewis i gyflwyno cwyn i’r Swyddog Diogelu Data a Swyddfa.

## Cefndir

Mae Deddf Tai (Cymru) 2014 yn rhoi cyfrifoldeb cyfreithiol ar bob awdurdod lleol i gynnal adolygiad digartrefedd ac i ddatblygu strategaeth digartrefedd bedair blynedd yn seiliedig ar ganlyniad yr adolygiad hwnnw.

Comisiynodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr adolygiad annibynnol o'r ymateb a roddir i unigolion ac aelwydydd sy'n wynebu digartrefedd. Roedd llawer o bobl wedi cyfrannu at yr adolygiad, yn cynnwys rhanddeiliaid o adrannau statudol yn y Cyngor, asiantaethau'r trydydd sector ac unigolion a oedd wedi wynebu digartrefedd.

Mae'r strategaeth yn nodi sut bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn gweithredu ar sail casgliadau'r arolwg. Ar ôl cytuno ar gyhoeddiad terfynol y strategaeth, bydd cynllun gweithredu'n cael ei ddatblygu.

Cafodd y Strategaeth Digartrefedd ei datblygu er mwyn:

- Amlinellu dull o wireddu gweledigaeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, sef:

*"Gweithio ar y cyd ar sail gorfforaethol gyda phartneriaid allanol, a defnyddwyr gwasanaethau, mewn modd ymatebol, creadigol ac amserol, i atal a lliniaru digartrefedd drwy'r fwrdeistref sirol, gan sicrhau y gall pobl gael gafael ar lety addas, gyda'r cymorth sy'n angenrheidiol i gwrdd â'u hanghenion."*

- Amlinellu dull o ymdrin â'r cynnydd yn nifer y bobl sy'n eu cyflwyno'u hunain fel bod yn Ddigartref ar adeg o gyfyngiadau ariannol;

- Amlinellu dull o ymdrin â'r estyniadau sydd ar ddod i'r dyletswyddau y mae ar yr Awdurdod Lleol i rai pobl sydd wedi'u cael eu hunain yn 'ddigartref yn anfwriadol' a'r posibilrwydd y bydd y categorïau 'angen â blaenoriaeth' ar gyfer pobl ddigartref yn newid. Gallai hyn arwain at fwy o alw ar adnoddau sydd eisoes yn gyfyngedig, yn enwedig llety dros dro.

Dyma prif nodau ac amcanion y strategaeth:

- Gwella cydweithredu rhwng sefydliadau allanol a'r swyddogaethau statudol oddi mewn i'r Awdurdod Lleol.

- Gwella trefniadau gweithio rhwng yr Awdurdod Lleol a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig er mwyn hwyluso cydweithredu'n unol ag Adran 95 Deddf Tai (Cymru) 2014.

- Gwella'r modd y mae pobl ddigartref, neu bobl sy'n wynebu bygythiad digartrefedd, yn cael gafael ar wasanaethau.

- Gwella hygyrchedd ac argaeledd y cymorth a'r dewisiadau llety ar gyfer holl ddefnyddwyr y gwasanaeth.

## Cwestiynau'r Arolwg

A ydych:

- ◯ Yn un o breswylwyr Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont
- ◯ Yn un o weithwyr Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
- ◯ Yn weithiwr/gwirfoddolwr yn un o sefydliadau'r trydydd sector neu mewn mudiad gwirfoddol ym Mhen-y-bont
- ◯ Yn ddefnyddiwr gwasanaeth y Tîm Atebion Tai
- ◯ Arall (nodwch)

Ydy'r strategaeth yn esbonio'n glir pam mae Digartrefedd yn flaenoriaeth i'r cyngor?

- ◯ Ydy
- ◯ Nac ydy
- ◯ Ansicr

Dywedwch pam

Ydych chi'n cytuno gyda'r amcanion?

- ◯ Ydw
- ◯ Nac ydw

Dywedwch pam

A oes unrhyw beth ar goll o’r strategaeth yr hoffech ei weld yn cael ei gynnwys?

- ○ Oes
- ○ Nac oes

Nodwch yr hyn y dylid ei gynnwys yn eich tyb chi

Defnyddiwch y blwch isod i nodi unrhyw sylwadau eraill yn ymwneud â'r strategaeth hon

Fyddech chi'n hoffi i ni eich e-bostio pan fydd adroddiad yr ymgynghoriad ar gael?

- ○ Hoffwn
- ○ Dim diolch

Os mai 'hoffwn' oedd eich ateb, nodwch eich cyfeiriad e-bost isod

## Monitro cydraddoldeb

I’n helpu i sicrhau ein bod yn cynnig gwasanaethau’n deg i bawb sydd eu hangen, byddem yn ddiolchgar os gallech ateb rhai cwestiynau eraill am eich hun. Bydd y wybodaeth rydych yn ei rhoi yn cael ei chadw’n cyfrinachol, ac ni chaiff ond ei defnyddio at y diben o fonitro cydraddoldeb.
Nid oes rhaid ateb y cwestiynau hyn fel rhan o’r holiadur. Nid oes rhaid I chi ateb unrhyw gwestiynau os nad ydych eisiau gwneud hynny. Fel arall, gallwch ddewis ateb rhai ond nid eraill drwy ddewis yr opsiynau ‘Byddai’n well gennyf beidio dweud’.

**Dewiswch eich categori oedran.** Dewiswch un opsiwn yn unig.

- ○ Dan 18
- ○ 18 - 24
- ○ 25 - 34
- ○ 35 - 44
- ○ 45 - 54
- ○ 55 - 64
- ○ 65 - 74
- ○ 75+
- ○ Mae’n well gennyf beidio ag ateb

**Ydych chi’n ystyried eich bod yn anabl?** Dewiswch un yn unig.

- ○ Ydw
- ○ Nac ydw
- ○ Mae’n well gennyf beidio ag ateb

Nodwch yn y blwch isod

Sut y byddech yn disgrifio eich cenedligrwydd? **Dewiswch un opsiwn yn unig.**

- ○ Cymro/Cymraes
- ○ Sais/Saesnes
- ○ Albanwr/Albanes
- ○ Gwyddel/Gwyddeles o Ogledd Iwerddon
- ○ Prydeiniwr
- ○ Arall (nodwch yn y blwch isod)
- ○ Mae'n well gennyf beidio ag ateb

I ba grŵp ethnig yr ydych chi'n perthyn? **Dewiswch un opsiwn yn unig.**

- ○ Gwyn
- ○ Cymysg / sawl grŵp ethnig
- ○ Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig
- ○ Du / Affricanaidd / Caribiaidd / du Prydeinig
- ○ Grŵp ethnig arall (nodwch yn y blwch isod)
- ○ Mae'n well gennyf beidio ag ateb

Beth yw eich crefydd neu eich cred? **Dewiswch un opsiwn yn unig.**

- ○ Dim Crefydd
- ○ Cristnogaeth
- ○ Bwdhaidd
- ○ Hindŵaidd
- ○ Iddewig
- ○ Mwslimaidd
- ○ Sikh
- ○ Unrhyw grefydd neu gred arall (teipiwch yn y blwch isod)
- ○ Mae'n well gennyf beidio ag ateb

**Beth yw eich rhyw?** Dewiswch un opsiwn yn unig.

- ○ Gwryw
- ○ Benyw
- ○ Trawsryweddol
- ○ Mae'n well gennyf beidio ag ateb

A ydych chi’n feichiog? **Dewiswch un opsiwn yn unig.**

- ○ Ydy
- ○ Nac ydy
- ○ Mae'n well gennyf beidio ag ateb

**A ydych chi wedi rhoi genedigaeth yn ystod y 26 wythnos diwethaf?**
Dewiswch un opsiwn yn unig.

- ○ Ydy
- ○ Nac ydy
- ○ Mae'n well gennyf beidio ag ateb

Beth yw eich cyfeiriadedd rhywiol? **Dewiswch un opsiwn yn unig.**

- ○ Heterorywiol / strêt
- ○ Dyn Hoyw
- ○ Lesbiaidd / merch hoyw
- ○ Deurywiol
- ○ Arall
- ○ Mae'n well gennyf beidio ag ateb

Beth yw eich statws priodasol? **Dewiswch un opsiwn yn unig.**

- ○ Sengl
- ○ Â phartner
- ○ Priod
- ○ Mewn partneriaeth sifil
- ○ Wedi ysgaru
- ○ Gweddw
- ○ Mae'n well gennyf beidio ag ateb

**A ydych chi'n gallu…**
Dewiswch mewn un opsiwn ym mhob rhes

| | Ddim o gwbl | Rhywfaint | Yn eithaf da | Yn rhugl | Mae'n well gennyf beidio ag ateb |
|---|---|---|---|---|---|
| siarad Cymraeg? | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |
| darllen Cymraeg? | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |
| ysgrifennu Cymraeg? | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |

**Diolch am neilltuo amser i lenwi'r arolwg**